COLEG Sir Benfro
Pembrokeshire COLLEGE

Teitl y Swydd: **Rheolwr Datblygu Addysgu a Dysgu**

Cyflog: **Graddfa Rheoli MS1 Sefydlog**

Adroddiadau i: **Rheolwr Ansawdd, Addysgu a Dysgu**

DISGRIFIAD SWYDD

Pwrpas y Swydd

Mae hon yn swydd hanfodol o fewn y Tîm Ansawdd, Addysgu a Dysgu, yn rheoli darparu a gweithredu ymchwil ar sail tystiolaeth, cynlluniau datblygu a phrosesau ar gyfer gwella ansawdd mewn Addysgu a Dysgu, fel y'u harweinir a'u ddylunio'n strategol gan y Rheolwr Ansawdd, Addysgu a Dysgu i symud ymhellach tuag at ddarpariaeth ragorol. Mae hwn yn gyfle cyffrous i athro/athrawes cymwysedig reoli rhaglen Addysgu a Dysgu FFYNNU/THRIVE y Coleg, wrth brofi'r amgylchedd cyflym o weithio o fewn y Tîm Ansawdd.

Cyfrifoldebau Allweddol

- Cymell, cydlynu a defnyddio'r Tîm Hyfforddi Aspire
- Rheoli prosiect rhaglen Addysgu a Dysgu FFYNNU/THRIVE
- Gweithio gyda Rheolwyr Maes Cwricwlwm y Coleg i sicrhau bod staff yn cael eu rhyddhau i gymryd rhan
- Adolygu, datblygu a rheoli'r gweithdrefnau gweinyddol sy'n ymwneud ag Addysgu a Dysgu
- Adeiladu perthnasoedd cadarnhaol, cefnogol gyda chydweithwyr ar draws gwahanol dimau er mwyn rhannu'r weledigaeth gyfun, i fod yn rhagorol
- Goruchwylio dull pedagogaidd y rhaglen FFYNNU/THRIVE ynghyd â rheoli prosesau a digwyddiadau allweddol sy'n ganolog i ddarparu Addysgu a Dysgu o ansawdd uchel yn effeithiol.
- Dylunio a chreu adnoddau ar gyfer ystod o themâu Addysgu a Dysgu, sy'n tynnu ar y profiad sy'n deillio o'r rhaglen FFYNNU/THRIVE
- Cefnogi cydweithwyr i ddylunio a chreu adnoddau ar gyfer ystod o brosiectau sy'n tynnu ar y profiad sy'n deillio o'r rhaglen FFYNNU/THRIVE
- Gweithio gyda'r Rheolwr Ansawdd, Addysgu a Dysgu i greu ac annog diwylliant o ddyhead, lle mae pob dysgwr yn cael eu hannog yn fwriadol ac yn bwrpasol i FFYNNU
- Fel aelod o dîm rheoli Aspire, helpu i ddylunio, gweithio o fewn, hyrwyddo ac ymgorffori fframwaith datblygu yn seiliedig ar y damcaniaethau addysgu Meddylfryd Twf a Pharth Datblygu Procsimol
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Rheolwr Sicrwydd Ansawdd lle mae gwella ansawdd a sicrhau ansawdd yn cysylltu
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Dysgu Digidol lle mae agendâu yn alinio
- Dylunio, cyflwyno a/neu drefnu hyfforddiant addysgu a dysgu i dimau addysgu a dysgu
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Swyddog Datblygu Staff i drefnu a datblygu hyfforddiant a chefnogaeth a gynlluniwyd yn effeithiol

- Bod yn aelod gweithgar o'r Grŵp Rheoli Ansawdd, gan weithio yn unol â'r Cylch Ansawdd ar gyfer Addysgu a Dysgu
- Cyflawni dyraniad addysgu o ddim mwy na 167 awr y flwyddyn academaidd
- Alinio gweithgaredd Addysgu a Dysgu â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Ymarferwyr Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith
- Cymryd rhan mewn gweithgaredd Addysgu a Dysgu cydweithredol rhanbarthol fel y'i nodwyd a'i rannu gan y Rheolwr Ansawdd, Addysgu a Dysgu

Cyfrifoldebau Cyffredinol

- Gweithredu o fewn cyfyngiadau cyllidebol, a sicrhau rheolaeth ariannol a gwerth am arian ym mhob gweithgaredd
- Cyfrannu at ddiwylliant o welliant parhaus
- Dangos ymddygiadau sy'n gyson ag arddull reoli agored, gynhwysol a chyfranogol
- Sicrhau cymhwysedd parhaus yn rôl y swydd yn rhagweithiol trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol
- Cydymffurfio â'r holl ofynion hyfforddi gorfodol gan gynnwys traws-Golegol a'r rhai sy'n benodol i rôl y swydd
- Cydymffurfio â'r holl Bolisïau a Gweithdrefnau traws-Golegol a chymryd cyfrifoldeb penodol am ymrwymiad y Coleg i amrywiaeth, cyfle cyfartal ac am gynnal amgylchedd gwaith diogel ac iach
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â swydd, cymwysterau a phrofiad
- Bod â’r holl wybodaeth ddiweddaraf a gwybodaeth am ddatblygiadau arbenigol perthnasol - gan gynnwys deddfwriaeth - ac asesu effeithiau, gan sicrhau eu bod yn cael eu lledaenu neu eu gweithredu'n briodol.
- Cymryd rhan mewn cyfleoedd diwydiannol perthnasol fel y nodwyd gan y rheolwr llinell
- Gweithio i'r safonau proffesiynol uchaf yn unol â'r Cod Ymddygiad Staff a chydymffurfio'n llawn ag ymrwymiad y Coleg i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Mae'n ofynnol i holl weithwyr y Coleg ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion agored i niwed
- Cadw at Bolisi Diogelu Data a chanllawiau Cyfathrebu Electronig y Coleg gan gynnwys e-bost a'r rhyngrwyd
- Cymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun, a diogelwch pobl eraill yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Coleg
- Cydymffurfio â gofynion Safonau’r Gymraeg a chyfrannu at hwyluso dewis iaith o fewn darpariaeth gwasanaeth a chwricwlwm y Coleg

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF), y Gymraeg, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Sgiliau Hanfodol, Iechyd, Diogelwch, Diogelu, Lles a'r Amgylchedd.

MANYLEB PERSON

Meini Prawf Dethol	Hanfodol	Dymunol	Dull Asesu
Cymwysterau a Hyfforddiant	• Meddu ar gymhwyster TAR / PCE neu gymhwyster cyfatebol • Meddu ar gymhwyster proffesiynol perthnasol ar lefel 5 neu uwch	• Meddu ar gymhwyster rheoli/goruchwylio perthnasol ar o leiaf lefel 3	• Ffurflen Gais/ Cyfweliad
Gwybodaeth a Phrofiad	• Sgiliau TG rhagorol, yn benodol y gyfres o gymwysiadau Microsoft • Yn gyfarwydd â themâu Addysgu a Dysgu, gan gynnwys dulliau dysgu cyfunol • Profiad o reoli ac annog ystod amrywiol o ddysgwyr a phrofiadau dysgu mewn Ôl-16 • O leiaf 3 blynedd (cyfwerth â llawn-amser) o ddysgu mewn AB neu gyfnod allweddol 5 (neu gyfwerth) • Profiad o weithio gyda grwpiau o gydweithwyr i annog a chyflawni newid • Profiad o addysgu neu ddarparu dysgu drwy dechnolegau o bell	• Ymwybyddiaeth o'r Meddylfryd Twf • Ymwybyddiaeth o'r Parth Datblygu Procsimol • Ymwybyddiaeth o'r safonau proffesiynol ar gyfer athrawon addysg bellach ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru	• Ffurflen Gais/ Cyfweliad
Sgiliau a Galluoedd	• Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol • Gallu gweithio'n gywir tuag at dargedau a therfynau amser • Sgiliau trefnu rhagorol • Y gallu i weithio'n effeithiol gyda myfyrwyr, staff a chwsmeriaid allanol • Sgiliau rheoli prosiect rhagorol • Dull ysbrydoledig o nodi a gweithredu strategaethau addysgu a dysgu • Gwybodaeth am dechnolegau i gynorthwyo addysgu a dysgu • Sgiliau ymchwil rhagorol	• Y gallu i gyfarch yn Gymraeg er mwyn darparu gwasanaeth cwsmer	• Cyfweliad

Priodoleddau Personol	• Modd hawdd mynd ato, hyblyg a phroffesiynol • Parodrwydd i ddysgu sgiliau newydd • Chwaraewr tîm cadarn • Gallu defnyddio menter bob amser • Natur werthusol gydag awydd i weld gwelliant • Bod â moeseg waith gref, ac ymdeimlad cryf o gyfrinachedd		• Cyfweliad
Gofynion Arbennig	• Yn addas i weithio gyda phlant ac oedolion sy'n agored i niwed		• Ffurflen Gais/ Cyfweliad